



Maniffesto Mind Cymru ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yn 2024

 Mind Cymru

Cyflwyniad

Bob blwyddyn, bydd 1 o bob 4 ohonom yn cael problem iechyd meddwl.¹ Ond ar hyn o bryd, mae'r system iechyd meddwl ar dorri ac mae llawer gormod ohonom sydd ddim yn cael yr help y mae ei daer angen arnom.

Nid yw effeithiau'r system doredig hon yn cyffwrdd pawb i'r un graddau. Mae pobl sy'n byw mewn tlodi, pobl o gymunedau sydd wedi'u hiliaethu a'r rheini y mae salwch meddwl yn effeithio fwyaf arnynt yn cael eu gadael ar ôl; yn rhy aml o lawer, nid ydynt yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.

Yng nghanol argyfwng costau byw, gyda thlodi'n cynyddu ar ei gyfradd gyflymaf mewn 30 mlynedd, nid yw'n syndod bod mwy ohonom yn mynd yn sâl, yn methu aros mewn gwaith ac yn troi at y system fudd-daliadau am gymorth.³ Iechyd meddwl yw prif achos absenoldeb salwch yn y DU erbyn hyn. Mae 300,000 o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl hirdymor yn mynd yn ddiwaith bob blwyddyn.

Efallai fod mwy ohonom yn siarad am iechyd meddwl nag erioed o'r blaen, ond mae cymorth yn dal i fod y tu hwnt i gyrraedd cymaint o bobl. Y newyddion da yw bod modd datrys hyn. Ondni fydd y galw cynyddol hwn am gymorth iechyd meddwl yn diflannu ar ei ben ei hun; mae'n galw am weithredu wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel ei gilydd.

Mae arnom angen llywodraeth y DU sy'n blaenoriaethu iechyd meddwl i wneud yn siŵr bod pawb yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt.

Bydd angen dull gweithredu gwirioneddol drawslywodraethol, gydag adrannau'r llywodraeth, cymdeithas sifil a'r rheini sydd â phrofiad bywyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a chyflawni cenhadaeth newydd ar gyfer iechyd meddwl.

Mae ein rhwydwaith o wasanaethau Mind lleol yn cynnal amrywiaeth o wasanaethau iechyd meddwl arloesol sy'n amrywio o gwrsela, cymorth cyfeillio a therapi siarad i gyngor ar fudd-daliadau a chynlluniau cyflogaeth a hyfforddiant, gan roi gwybodaeth a dealltwriaeth digynsail i ni am yr hyn sydd ei angen i gyflawni'r trawsnewid angenrheidiol ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Yr argymhellion a nodwyd gennym yw'r camau y mae'n rhaid i lywodraeth nesaf y DU eu cymryd ar unwaith tuag at ddyfodol lle byddwn yn meddwl am bob meddwl.

Yn dilyn yr etholiad nesaf, mae angen i ni gael cynllun trawslywodraethol ar gyfer mynd i'r afael ag iechyd meddwl a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl yng Nghymru a Lloegr. Mae'r etholiad hwn yn gyfle i ganolbwyntio ar iechyd meddwl a gwneud yn siŵr ein bod yn meddwl am bob meddwl.

Mae Mind Cymru yn galw ar lywodraeth nesaf y DU i wneud y canlynol:

1 Diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl

2 Rhoi trefn ar asesiadau budd-daliadau ar gyfer pobl anabl

3 Cefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl i ffynnu yn y gwaith

Mae'r maniffesto hwn yn amlinellu'r camau â blaenoriaeth sydd eu hangen ym mhob un o'r meysydd hyn.

Yr Achos dros Newid

Rydym yng nghanol argyfwng iechyd meddwl, gyda nifer y rheini y mae angen cymorth arnynt yn parhau i gynyddu a maint y galw yn drech na gallu'r system bresennol i'w gyflenwi.

Yng Nghymru, mae mwyafrif yr agweddau ar iechyd meddwl wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae pwerau allweddol sy'n effeithio ar gyflwr iechyd meddwl yng Nghymru yn parhau i fod yn nwylo San Steffan, fel dulliau o leihau tlodi neu ddiwygio deddfwriaeth dwy wlad.

Un enghraifft allweddol yw'r diwygiadau arfaethedig i Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), darn o ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr.

Rydym am weld y llywodraeth nesaf yn cyflwyno'r bil newydd i'r senedd o fewn y 100 diwrnod cyntaf ar ôl dod i rym. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru i wella sut mae'r Ddeddf yn cael ei defnyddio yma.

Er bod camau breision wedi'u cymryd i gynyddu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, mae'n destun pryder bod agweddau sy'n stigmatiddio ar gynnydd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y rheini ohonom sydd â phroblemau iechyd meddwl mwy difrifol. Ac mae dros hanner poblogaeth y DU yn credu bod llawer iawn o gywilydd yn gysylltiedig â chyflyrau iechyd meddwl o hyd.¹

Diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl:

Yr Achos dros Newid

Mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl wedi dyddio. Nid yw'n addas i'r diben. Mae Mind wedi bod yn pwyso am ddiwygio'r Ddeddf ers blynyddoedd lawer. Ac allwn ni ddim aros eiliad yn rhagor.

Dyma rai o'r problemau gyda'r Ddeddf:

- **Nid oes gan bobl sy'n cael eu cadw dan orchymyn yn unol â'r Ddeddf ddigon o lais yn eu triniaeth.** Nid ydynt yn gallu dewis y driniaeth sydd orau iddyn nhw ac nid yw'r Ddeddf yn cynnwys ffordd o apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch triniaeth.
- **Mae gwahaniaethau hiliol syfrdanol yn y ffordd mae hi'n cael ei defnyddio.** Mae pobl ddu dros dair gwaith a hanner yn fwy tebygol o gael eu cadw dan orchymyn yn unol â'r Ddeddf na phobl Wyn. Maen nhw dros wyth gwaith yn fwy tebygol o fod yn destun gorchymyn triniaeth gymunedol.²
- **Nid yw gorchymynion triniaeth gymunedol yn gweithio.** Bwriad gorchymynion triniaeth gymunedol yw rhoi triniaeth dan oruchwyliaeth i bobl yn y gymuned. Maen nhw'n rhoi set o amodau i rywun y mae'n rhaid iddyn nhw eu dilyn pan fyddan nhw'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Fe'u cyflwynwyd i atal pobl rhag mynd yn ôl i'r ysbyty dro ar ôl tro. Ond nid ydynt yn gweithio. Nid ydynt yn lleihau nifer yr aildderbyniadau. Nid ydynt yn lleihau faint o amser mae pobl yn ei dreulio yn yr ysbyty. Maen nhw'n ymwthiol ac yn cyfyngu ar fywydau pobl. Ac nid yw pobl yn gwybod beth mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud i gael eu rhyddhau o'r gorchymyn.
- **Mae'n annheg ar bobl mewn ardaloedd difreintiedig.** Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig hefyd fwy na thair gwaith a hanner yn fwy tebygol o gael eu cadw dan orchymyn na'r rheini yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.³
- **Nid yw'n gweithio i bobl ifanc.** Mae pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn wardiau i oedolion ac ymhell o'u cartref, sy'n amhriodol. Mae hyn yn annerbyniol. Maen nhw'n cael eu cyfyngu, eu hanwybyddu a'u gadael i ddelio â system ddryslud ar eu pennau eu hunain. A phan fyddant yn dod yn ôl i'w cymunedau, nid yw'r gefnogaeth a addawyd iddynt yn aml yn ymddangos.




1

Cyflwyno diwygiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Dechreuodd y daith at ddiwygio yn 2018 ar ffurf adolygiad annibynnol o'r Ddeddf, a dilynwyd hyn gan Bapur Gwyn yn 2021. Ers hynny, mae Bil Iechyd Meddwl drafft wedi cael ei lunio ac wedi mynd drwy drefn graffucyny broses ddeddfu. Mae llawer o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl wedi rhannu'r anawsterau a'r trawma maen nhw wedi'u profi o dan y Ddeddf bresennol. Ond nawr ni fydd dim o hyn yn dwyn ffrwyth.

Ni ddylid diystyru'r holl amser, ymdrech ac adnoddau sydd wedi cael eu buddsoddi yn y gwaith o ddiwygio'r ddeddfwriaeth hon i'w gwneud yn addas i'r diben yn yr 21ain ganrif. Dylai'r blaid neu'r pleidiau sy'n ffurfio'r llywodraeth nesaf ymateb i adroddiad y Cyd-bwyllgor ar y bil iechyd meddwl drafft a chyflwyno'r bil i senedd y DU o fewn 100 diwrnod cyntaf eu cyfnod yn y swydd.



Beth ddylai llywodraeth nesaf y DU ei wneud:

Rhaid i lywodraeth nesaf y DU gyflwyno Deddf Iechyd Meddwl ddiwygiedig i gryfhau hawliau, dewis a rheolaeth pobl yn ystod eu cyfnod mewn ysbyty iechyd meddwl. Dylai'r bil gael ei **gyflwyno i senedd y DU o fewn 100 diwrnod cyntaf cyfnod y llywodraeth nesaf mewn grym**. Yn y Bil Iechyd Meddwl newydd hwn, rydym yn galw am y newidiadau canlynol, yn ogystal â'r hyn sydd wedi cael ei gynnig, sef:

- Diddymu gorchmynion triniaeth gymunedol.
- Pobl i gael yr hawl i gael asesiad a thriniaeth iechyd meddwl pan fydd eu hangen arnynt.
- Dogfennau dewis ymlaen llaw ar gyfer pawb mewn ysbyty iechyd meddwl a hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch triniaeth.
- Dylai pawb mewn ysbyty iechyd meddwl gael eiriolwr yn awtomatig oni bai nad oes arnynt eisiau un.
- Plant a phobl ifanc i gael eu hamddiffyn i'r un graddau o dan yr hawliau a'r camau diogelu newydd, a rhoi terfyn ar leoliadau amhriodol i bobl ifanc mewn wardiau i oedolion neu ymhell o'u cartref.

“Dydw i erioed wedi teimlo'n fwy anniogel nag yr oeddwn i yn y lle hwnnw [...] Roedd staff yn cael eu tynnu i gymaint o gyfeiriadau gwahanol ar yr un pryd, ac roedd hi'n amlwg nad oedd digon ohonyn nhw. [...] Mae fy amser yn yr ysbyty yn rhywbeth rydw i wedi gofyn am gymorth ar ei gyfer mewn therapi ers gadael – roedd mor wael â hynny. Dylai gwasanaethau cleifion mewnol aciwt fod yn lloches, nid yn rhywle sy'n achosi trawma ychwanegol.”

Priya, person ifanc

Effaith

Mae diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn hanfodol i atgyfnerthu hawliau, dewis a rheolaeth pobl pan maen nhw mewn ysbyty iechyd meddwl. Mae'n gyfle i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau dwys o ran cymhwyso'r Ddeddf, ac i roi mwy o lais i bobl dros eu triniaeth eu hunain.

Tlodi ac iechyd meddwl: Yr Achos dros Newid


Rydym yn gwybod bod cysylltiad 2 ffordd rhwng iechyd meddwl a thlodi, ac mae iechyd corfforol, addysg a thai pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn aml yn waeth.

Mae'r argyfwng costau byw presennol yn cael effaith enfawr, gan arwain at fwy o bobl yn cael problemau iechyd meddwl ac yn gwneud sefyllfa'r rheini a oedd eisoes yn ei chael hi'n anodd yn waeth.


- Mae ein hymchwil yn dangos bod pobl sy'n derbyn budd-daliadau yn ei chael hi'n arbennig o anodd ac yn wynebu problemau cynyddol ddifrifol a chymhleth ar ôl y pandemig.⁵
- Mae gan oddeutu 1 o bob 3 o bobl sy'n gwneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP) ac yn ei gael ac 1 o bob 2 o bobl sy'n cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) broblem iechyd meddwl, nam gwybyddol neu anabledd dysgu fel eu prif anabledd.^{6,7}

“Rwy’n fod dynol sy’n ei chael hi’n anodd, nid rhif Yswiriant Gwladol yn unig, neu ffurflen sy’n cael ei phrosesu. Dylai’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau gael profiad o iechyd meddwl a’r gallu i fod yn empathetig a deallgar.”⁹

Paul



Mae **6 o bob 10 (59%)** oedolyn yn y DU yn dweud bod yr **argyfwng costau byw wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl**, megis eu gadael yn teimlo'n bryderus, yn isel, ac yn ddiobaith.⁴



Dywedodd bron i **7 o bob 10 o bobl (66%)** fod mynd drwy eu **hasesiad budd-daliadau wedi gwneud eu hiechyd meddwl yn waeth**.⁸

2

Gwneud i asesiadau budd-daliadau weithio i bobl â phroblemau iechyd meddwl

Nid yw'r system fudd-daliadau bresennol yn rhoi'r cymorth sydd ei angen arnom i'r rhai ohonom sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae asesiadau iechyd gwallus yn golygu bod llawer o bobl yn gorfod mynd trwy prosesau hir, llawn straen i frwydro dros fudd-daliadau y maen nhw'n gymwys i'w cael, tra byddant yn sâl.


Mae taer angen diwygio'r broses asesu Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP) a'r Asesiad Gallu i Weithio (WCA) y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ei defnyddio. Mae diffyg arbenigedd a dealltwriaeth o broblemau iechyd meddwl yn y system fudd-daliadau, sy'n golygu bod asesiadau yn y pen draw yn achosi niwed i sefyllfa ariannol ac iechyd meddwl llawer o bobl. Rhaid i bobl sydd â phrofiad o'r system fudd-daliadau hefyd fod wrth galon y gwaith o gynllunio sut i'w gwella.

Dylai'r system fudd-daliadau fod yno i bob un ohonom pan fydd arnom ei hangen fwyaf. Mae diwygiadau arfaethedig diweddar wedi ceisio lleihau mynediad a gwneud y system yn anos i bobl anabl. Yn hytrach, mae angen dull gweithredu newydd, sy'n rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod pobl anabl, gan gynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl, yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Ychydig o dystiolaeth sydd bod sancsiynau'n gweithio o ran helpu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl i'r gweithle, ond digon o dystiolaeth eu bod yn niweidiol i'n hiechyd. Er mwyn i'r system fudd-daliadau weithio i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, rhaid iddi fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth ac empathi. Dylai cymorth personol gael ei ddarparu

gan staff medrus a phrofiadol, gyda'r nod o gefnogi pobl i gyflawni eu dyheadau unigol, yn hytrach na dim ond rhoi pwysau arnynt i gydymffurfio.

Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i'r canlynol:

- **Rhoi'r gorau i gymhwyso amodoldeb a sancsiynau** i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor
- Creu **comisiwn newydd dan arweiniad pobl anabl i ailgynllunio asesiadau budd-daliadau**. Dylid rhoi'r dasg ganlynol i gomisiwn:
 - Nodi diwygiadau i strwythur a meini prawf asesiadau budd-daliadau.
 - Llunio meini prawf newydd ar gyfer yr asesiad PIP sy'n adlewyrchu'n well sut mae cyflwr iechyd neu anabledd unigolyn yn effeithio arno.
 - Ystyried ai dileu'r Asesiad Gallu i Weithio (WCA) yw'r penderfyniad cywir, ac os felly, sut y gall weithio'n ddiogel.



Effaith

Bydd diwygio asesiadau budd-daliadau i sicrhau eu bod yn deg, yn gywir ac yn briodol ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl yn helpu pobl i fyw gydag annibyniaeth ac urddas pan fyddant yn rhy sâl i weithio.

A bydd ailgynllunio asesiadau a rhoi terfyn ar amodoldeb yn lleihau effeithiau negyddol y system bresennol, ac yn helpu i gefnogi adferiad pobl a'u gallu i ddychwelyd i'r gwaith pan fyddant yn barod.

Iechyd meddwl yn y gwaith:


Yr Achos dros Newid

Iechyd meddwl yw prif achos absenoldeb oherwydd salwch yn y DU. Mae 300,000 o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl tymor hir yn mynd yn ddiwaith bob blwyddyn. Rydym yn gwybod bod perchnogion busnesau bach a'r hunangyflogedig yn benodol yn dioddef, **gydag 1 o bob 2 yn dweud bod ganddynt iechyd meddwl gwael.**¹¹ Mae'r rheini sydd mewn gwaith ansicr ac ar gyflog isel, sy'n profi tlodi mewn gwaith, hefyd wedi cael eu heffeithio'n arbennig.

Gall gwaith fod yn fuddiol i iechyd meddwl pobl. Mae ein hymchwil yn ategu hyn gyda phobl yn dweud wrthym y byddai'n dda ganddynt pe baen nhw'n ddigon iach i weithio ond eu bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i waith a oedd yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt reoli eu problemau iechyd meddwl a chyfrannu mewn ffordd arwyddocaol.¹²

Dangosodd yr Adolygiad Ffynnu yn y Gwaith, a gomisiynwyd gan y llywodraeth oedd mewn grym ar y pryd yn 2017, bod 300,000 o bobl yn gadael gwaith bob blwyddyn oherwydd cyflyrau iechyd meddwl hirdymor.¹³

Roedd yr Adolygiad yn cynnig set o safonau y dylai cyflogwyr o bob maint ac ym mhob sector geisio eu gweithredu er mwyn caniatáu i bawb gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn y gwaith. Daethpwyd â'r rhain at ei gilydd o dan yr Ymrwymiad Iechyd Meddwl yn y Gwaith. Ond mae cynnydd llywodraeth y DU yn hyn o beth wedi arafu ac nid ydym eto wedi gweld yr argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad yn cael eu rhoi ar waith yn llawn.



Dywedodd **2 o bob 3 unigolyn** oedd ar Dâl Salwch Statudol oherwydd ei iechyd meddwl bod **Tâl Salwch Statudol wedi achosi problemau ariannol ac yn achos rhai ohonynt, roedd hyn yn golygu eu bod wedi mynd i ddyled.**

Mae hawliau pobl â phroblemau iechyd meddwl yn Neddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn aneglur ar hyn o bryd, oherwydd y gofyniad bod angen i anabledd fod yn “hirdymor”. Gall problemau iechyd meddwl amrywio a bod yn ysbeidiol ac mae’n hanfodol bod amddiffyniadau cyfreithiol yn adlewyrchu hyn.


Ac mae model presennol y Tâl Salwch Statudol (SSP) yn golygu na all llawer o bobl sydd ddim yn ffit i weithio fforddio cymryd yr amser angenrheidiol i ffwrdd o’r gwaith oherwydd salwch. Mae tystiolaeth yn dangos bod hyn yn cael effeithiau negyddol ar iechyd ac adferiad rhywun.¹⁴

“Mae gen i gyflyrau iechyd felly rydw i’n ei chael yn anodd gweithio, ond alla i ddim fforddio cymryd amser i ffwrdd.


Dydy fy nghyflogwr ddim yn hoffi i mi ddefnyddio fy ngwyliau blynyddol pan rydw i’n sâl. Rydw i’n ei chael yn anodd byw fel rhiant senl gydag un incwm, ond alla i ddim gweithio rhagor oherwydd fy iechyd.”⁹

Ymatebydd arolwg Mind 2020

Yng nghyswllt pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl oedd ar Dâl Salwch Statudol:



Dyweddodd **3 o bob 5 o bobl** wrthym fod y gostyngiad mewn incwm a achosir gan y Tâl Salwch Statudol **wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl.**



Dyweddodd **1 o bob 4** ei fod wedi arafu eu hadferiad.¹⁵

3

Cefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl i ffynnu yn y gwaith

Mae angen i gyflogwyr ymateb i'r her o wella llesiant yn y gweithle i bawb a chefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Ond gyda 68% o bobl yn meddwl y dylai'r llywodraeth orfodi safonau o ran sut mae cyflogwyr yn delio ag iechyd meddwl yn y gwaith, mae angen i ni hefyd weld llywodraeth y DU yn gweithredu.

Drwy weithredu argymhellion Ffynnu yn y Gwaith yn llawn a hyrwyddo'r Ymrwymiad Iechyd Meddwl yn y Gwaith, gall y llywodraeth gynnig fframwaith i fusnesau greu gweithleoedd sy'n hyrwyddo iechyd meddwl da. Yn benodol, gallent ddarparu pecyn penodol o gyllid, cymorth a gwybodaeth i gefnogi busnesau bach a chanolig a micro-sefydliadau i weithredu'r ymrwymiad Iechyd Meddwl yn y Gwaith.

Dylai llywodraeth y DU hefyd egluro ac ymestyn yr amddiffyniadau sydd ar gael i weithwyr o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel bod pobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael yr un hawliau â phobl anabl eraill.

A gyda gweithwyr ar Dâl Salwch Statudol yn cael cyn lleied ag £1.10 yr awr yn yr wythnos gyntaf a llai na £3 yr awr ar ôl hynny, mae taer angen moderneiddio'r Tâl Salwch Statudol.¹⁷ Nid yw pobl ar incwm isel neu'r hunangyflogedig yn gymwys i gael Tâl Salwch Statudol¹ ac er bod llawer o bobl sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl bod yn absennol oherwydd iechyd meddwl yn

ei chael yn haws ymdopi â'r newid drwy drefniant dychwelyd yn raddol, nid yw'r Tâl Salwch Statudol ar ei ffurf bresennol yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer hyn.

Beth ddylai llywodraeth nesaf y DU ei wneud

- **Moderneiddio'r Tâl Salwch Statudol fel ei fod:**
 - **Yn cynnig cymorth ariannol gwirioneddol**, sy'n cynyddu yn unol â'r Cyflog Byw, sy'n daladwy o ddiwrnod cyntaf y salwch ac sydd ar gael am 52 wythnos.
 - **Yn fwy hyblyg** er mwyn hwyluso dychwelyd yn raddol yn wirfoddol wrth dderbyn cyflog ac ar sail pro-rata.
 - **Ar gael i bobl ar incwm isel** sydd ddim yn gymwys ar hyn o bryd, a ddarperir drwy ddiddymu'r Terfyn Enillion Isaf.
- **Gweithredu argymhelliad Adolygiad Ffynnu yn y Gwaith 2017** fel bod pobl yn cael cymorth i ofalu am eu hiechyd meddwl yn y gwaith.
- **Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010 i egluro'r diffiniad o anabled** er mwyn adlewyrchu profiadau pobl â phroblemau iechyd meddwl yn well.

¹ Mae Tâl Salwch Statudol yn daladwy i bob 'cyflogai' (sy'n cael eu diffinio fel gweithwyr sy'n talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1) sy'n ennill mwy na'r Terfyn Enillion Isaf o £123 yr wythnos (ar gyfartaledd). Mae tua 2 filiwn o weithwyr yn ennill llai na'r Terfyn Enillion Isaf hwn ac felly nid ydyn nhw'n gymwys i gael Tâl Salwch Statudol nac unrhyw gymorth ariannol gan eu cyflogwr. Mae'r hunangyflogedig sydd ddim yn talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 hefyd wedi'u heithrio.

Moderneiddio'r Tâl Salwch Statudol

I'r rheini sy'n rhy sâl i weithio oherwydd eu hiechyd meddwl, mae Tâl Salwch Statudol ar ei ffurf bresennol yn golygu bod pobl yn druenus o ddi-gymorth pan maen nhw fwyaf mewn angen:

Effaith

Mae'r amcangyfrif o gost iechyd meddwl gwael i gyflogwyr y DU ar yr uchaf erioed ar tua £56 biliwn y flwyddyn. Mae hyn oherwydd presenoliaeth ac absenoliaeth salwch a chyfnewid staff uwch - sydd wedi cynyddu 25% ers 2019.¹⁰

Drwy sicrhau fod gan bawb y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i ffynnu yn y gwaith, gall llywodraeth y DU helpu i dyfu'r economi a lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Meddwl Am Bob Meddwl:

Ein galwad i weithredu

Ni all yr argyfwng iechyd meddwl barhau. Dyna pam ei bod yn hanfodol bod llywodraeth nesaf y DU yn sicrhau ein bod yn wlad lle mae pawb sydd â phroblem iechyd meddwl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt.

Mae hon yn dasg fawr – ond rydym yn gwybod pa gamau y mae angen i ni eu cymryd i wneud i hyn ddigwydd. Gyda'r camau hyn, mae gan lywodraeth nesaf y DU gyfle i gael cymorth i bobl sydd â phroblem iechyd meddwl yn ôl ar y trywydd iawn. Ac yn y tymor hir, gallant sbarduno'r trawsnewid sydd ei angen yn ein system iechyd meddwl.

Mae Mind yn barod i weithio gyda llywodraeth nesaf y DU i wneud i hyn ddigwydd – mae darparu gwasanaethau iechyd meddwl ar draws **ein rhwydwaith** o wasanaethau Mind lleol yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth digyffelyb i ni o'r hyn sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl.

Gyda'n gilydd, gallwn wneud yn siŵr ein bod yn meddwl am bob meddwl.



¹ Arolwg barn Mind, ymgyrch 'Os Yw Hi'n Oce', 2024.

² NHS England Digital, *Ystadegau'r Ddeddf Iechyd Meddwl, Ffigurau Blynyddol, 2022-23* (2024). <https://digital.nhs.uk/data-and-information/publications/statistical/mental-health-act-statistics-annual-figures/2022-23-annual-figures/detentions-differences-between-groups-of-people>

³ Ibid.

⁴ Arolwg YouGov ar ran Mind yn 2022 (Y Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl (9 Mai 2022) Datganiad i'r wasg <https://www.moneyandmentalhealth.org/press-release/cost-of-living-crisis/>)

⁵ Mind, *Coronavirus: the consequences for mental health* (2021). Ar gael yn <https://www.mind.org.uk/media/8962/the-consequences-of-coronavirus-for-mental-health-final-report.pdf>

⁶ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2023). Stat-Xplore: Achosion yn ymwneud â Thaliadau Annibyniaeth Personol gyda Hawl. Ar gael yn: <https://stat-xplore.dwp.gov.uk/>.

⁷ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2023). Stat-Xplore: Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyflwr meddygol fesul Chwarter a Llwyth Achosion Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Ar gael yn: <https://stat-xplore.dwp.gov.uk/>.

⁸ Cynhaliwyd yr arolwg gan Mind a Censuswide ac roedd yn cynnwys dros 1000 o bobl oedd â phrofiad o broblemau iechyd meddwl ac asesiadau budd-daliadau, 2023.

⁹ Hafan – Mental Health At Work

¹⁰ <http://www2.deloitte.com/uk/en/pages/consulting/articles/mental-health-and-employers-the-case-for-investment.html>



029 2039 5123
action@mind.org.uk
Mind.org.uk/Cymru

 **@MindCymru**

 **@MindCymruCharity**

Mind Cymru
Ystafell 1,
9^{fed} Llawr Brunel House,
2 Heol Fitzalan,
Caerdydd,
CF24 0EB

Mind's registered charity
number is 219830.